Swansea University
Prifysgol Abertawe

Institute of International Shipping and Trade Law

*Making waves in shipping and trade for 20 years*

## Rhagolygon Graddedigion LLM

Mae'r graddau LLM y mae Prifysgol Abertawe yn eu cynnig ym maes cyfraith fasnachol, forol, busnes, eiddo deallusol (IP) ac olew a nwy yn cael eu parchu'n ddirfawr ledled y sector masnachol. Maen nhw'n gosod ein graddedigion mewn safle blaenllaw yn y farchnad swyddi, hyd yn oed yn ystod adegau o ddirywiad economaidd neu yng nghanol pandemig byd-eang. Isod, gallwch chi ddarllen hanesion rhai o'n graddedigion ym mis Tachwedd 2020 a ddaeth o hyd i gyflogaeth yn y sector yn syth ar ôl cwblhau'u LLM yn Abertawe. Mae'r hanesion hyn yn dangos sut mae ein cysylltiadau â chwmnïau cyfreithiol yn helpu ein graddedigion hyd yn oed yn ystod yr adegau anoddaf.

---



### Puneet Sareen
Swyddog Gweithredol Hawliadau yn
The Standard Club, Llundain.

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Mae llawer iawn o ffactorau'n cyfuno â'i gilydd i helpu graddedigion i gael eu swydd ddelfrydol. Roedd bod yma yn Abertawe yn rhoi mwy nag un fantais i mi:


**1.** Enw da'r cwrs ac aelodau'r gyfadran sy'n addysgu'r cwrs - ffactor allweddol yn yr argraff a grëwyd gan fy CV. Credwch neu beidio, aeth y cyfwelwyr ati i drafod y ffaith eu bod nhw'u hunain wedi cael eu haddysgu gan rai o staff y gyfadran bresennol, boed yn Abertawe neu'n rhywle arall. Ceir gwahaniaeth pan rydych chi'n cael eich addysgu gan aelodau cyfadrannol o'i gymharu â chael eich addysgu gan enwau blaenllaw'r maes.

**2.** Y rhwydwaith o bobl amryddawn y llwyddais i'w greu yn ystod fy nghyfnod yn Abertawe. Nid yw'n gyfrinach bod y rhan fwyaf o geisiadau am swydd yn deillio o gyfeiriadau mewnol, ac ar ôl hynny rydych chi'n dibynnu ar eich safon eich hun i fynd â chi ymhellach tuag at eich nod. Cefais i'r cyfle i ymgeisio am fy rôl bresennol yn sgîl un person penodol y deuthum i'w adnabod yn y rhwydwaith yma yn Abertawe.

**3.** Gwnaeth yr wybodaeth a feithrinwyd yn y cwrs fy helpu i fagu llawer o hyder a datblygu'r sgiliau technegol angenrheidiol. Cydnabuwyd y rhain mewn ffordd eithaf amlwg yn ystod fy nghyfweliad, ac rwy'n eu rhoi ar waith yn barhaus yn fy rôl bresennol.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Waeth beth fo'r sefyllfa fyd-eang ar y pryd, does dim pall ar y diwydiant llongau. Peidiwch â gadael i ffactorau allanol ddylanwadu arnoch chi na'ch cymell chi i beidio â chyrchu'ch nod. Dewiswch eich modiwlau'n ddoeth iawn, a gwnewch eich gorau glas i feithrin gwybodaeth a all fod yn fanteisiol i chi. Parchwch y caledi sy'n wynebu pawb, byddwch yn amyneddgar, a chymerwch un cam ar y tro.



## Azeke Ikeke Dennis

Hyfforddai Cynorthwyol Archwilio, RSM UK, Bryste, Lloegr.

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Yn gyntaf oll, un o ofynion cael nawdd fisa (yn achos myfyrwyr rhyngwladol) yw gradd gydnabyddedig yn y DU. Yn fy nghyfweliad am swydd, roeddwn i'n gallu siarad yn hyderus am Brifysgol Abertawe ac am gael fy hyfforddi gan dîm o arbenigwyr ym myd diwydiant. Roeddwn i'n gallu siarad hefyd am ddramâu roeddwn i wedi'u cyhoeddi yn Waterfront, cylchgrawn uchel ei barch myfyrwyr yr ysgol.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Nid yw fy nghyngor yn hir, dim ond tri gair sydd gen i. BYDDWCH YN GADARNHAOL. Rwy'n cofio gorfod osgoi pobl a oedd yn dweud ei bod hi'n amhosibl cael swydd yn y farchnad swyddi ac nad oedd neb yn barod i noddi. Credwch fi: mae yna noddwyr, maen nhw yno, ond mae'n rhaid i chi chwilio amdanyn nhw.

Yn olaf, byddwch yn hyderus. Ysgol uchel ei bri yw Abertawe, ac mae'i chyfadran yn cael ei pharchu'n fawr. Peidiwch byth â gwrthod bod yn falch o'r ysgol ac o'r tîm anhygoel sy'n eich addysgu chi ar hyn o bryd.

---



## Deven Choudhary

Rheolwr Cyfreithiol yn Campbell Johnston Clark Cyf, Newcastle, Lloegr.

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Mewn gwirionedd, mae'r LLM ym Mhrifysgol Abertawe yn eithaf enwog, nid yn unig oherwydd strwythur ei chyrsiau ond hefyd ei chyfadran. Roedd y dull integredig, sy'n cynnwys nifer fawr o gyfuniadau wedi'u plethu drwyddi draw yn strwythur cyrsiau Abertawe, wedi caniatáu imi ehangu fy ngorwelion o ran dysgu a deall. Roedd hyn yn rhoi cipolwg newydd imi ond roedd hefyd wedi fy ngalluogi i gynllunio'n strategol ar gyfer y ffordd roeddwn i eisiau datblygu yn y diwydiant. A siarad yn bersonol, bryd hynny yn fy ngyrfa, roedd angen y cam ychwanegol hwnnw arna i ac roeddwn i'n gwybod y byddai LLM mewn Cyfraith Forol Ryngwladol ym Mhrifysgol Abertawe yn rhoi hynny imi.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Y prif awgrym gen i fyddai cynnal proffil Linkedin priodol: mae'n hollbwysig yn y byd sydd ohoni. Mae'r Brifysgol yn trefnu sawl sesiwn cyfarfod a chyfarch drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn gyfle pwysig ichi gael cipolwg ar farchnad cyfraith Lloegr ond mae hefyd yn rhoi'r cyfle i chi gymdeithasu gydag arbenigwyr yn y maes. Byddwn i hefyd yn awgrymu bod yn effro i gyfleoedd i ennill interniaeth, ac os yn bosibl dylech chi fynd ar eu holau yn ystod gwyliau'r gaeaf (waeth a ydyn nhw mewn cwmnïau cyfreithiol, Clybiau Diogelwch rhag Colled ac Indemnedd (P&I) neu sefydliadau cysylltiedig eraill). Cysylltwch â chyn-fyfyrwyr ar Linkedin ac ewch ati i ddeall gofynion y farchnad. Gan ei fod yn sector arbenigol, mae'n bosibl iawn na fydd sefyllfa'r farchnad bob amser yn aros yr un fath. Mewn gwirionedd, bydd yn amrywio eithaf tipyn a bydd digwyddiadau byd-eang yn effeithio'n uniongyrchol arno.



## Yuyang Sun

Cynorthwy-ydd Hawliadau Cymdeithas Sicrwydd Cydfuddiannol Perchnogion Llongau Tsieina (China P&I), Shanghai.

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Mae LLM Abertawe yn llwyfan gwych. Mae Abertawe yn darparu cyrsiau arbenigol iawn â ffocws cryf ar gyfraith llongau a masnachol, ynghyd â dull wedi'i bersonoli o addysgu yn ogystal â chefnogaeth gynhwysfawr o ran datblygu gyrfa. Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnoch chi, ond mae'n eich paratoi chi hefyd ar gyfer gyrfa addawol mewn sawl ffordd arall. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael yn ystod yr LLM yn Abertawe, ac ar ôl gorffen y rhaglen, yn rhai gwirioneddol fyd-eang. Rydych chi'n cael y cyfle i wneud ffrindiau â phobl o bob cwr o'r byd, ac mae'r gweithgareddau allgyrsiol, megis cynadleddau a digwyddiadau rhwydweithio a drefnir gan y darlithwyr, yn gyfleoedd gwych i ehangu rhwydweithiau. Yn fuan ar ôl gorffen Rhan I o'r rhaglen, roeddwn i'n ffodus iawn i sicrhau interniaeth yn BIMCO, sydd â'i bencadlys yn Shanghai, gyda chefnogaeth un o Wobrau Hannaford Turner. Cydweithiodd Abertawe â Hannaford Turner LLP. Fel rhywun a oedd ar fin dechrau'i yrfa, roedd hwn yn gyfle gwych i ddeall y diwydiant yn fwy a meddwl rhywfaint yn fwy ynglŷn â'r cyfeiriad y byddwn i'n ei gymryd. Yn ddiweddarach, gan fod diddordeb mawr gen i yng nghyfraith Lloegr a thrin hawliadau, penderfynais i gyflwyno cais am swydd cynorthwy-ydd hawliadau yn P&I China. Roedd y cyrsiau cyflogaeth â chredyd ychwanegol a gymerais i yn Abertawe, a'r wybodaeth uwch a gefais yn sgîl y rhaglen, o fudd mawr yn ystod y broses ymgeisio. Pan gefais i gynnig y swydd, roeddwn i'n cyffroi drwyddi draw ac roeddwn i'n hapus iawn i'w derbyn.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Hwyrach na fydda i'n gallu rhoi llawer o gyngor i'r rheiny ohonoch sydd eisoes yn weithwyr proffesiynol, gan mai newydd ddechrau ydw i yn fy ngyrfa. Ond o'm safbwynt i, rwy'n credu bod yn rhaid ichi ddilyn eich calon ac mae hyn yn golygu chwilio am y swydd rydych chi ei heisiau. Rwy'n gwybod ei fod yn gyfnod anodd iawn, ac efallai fod rhai ohonoch chi'n teimlo'n rhwystredig, ond mae'n bwysig credu ynoch chi'ch hun a chadw'r hyder y mae Abertawe yn ei roi i chi. Rhowch gynnig ar gynifer o geisiadau am swyddi ag y gallwch chi (byddwch yn strategol yn hyn o beth!). Cysylltwch â chyn-fyfyrwyr a'ch rhwydweithiau a fydd yn barod iawn i helpu. Mae yna lawer o gyfleoedd ledled y byd. Y cyfan y mae'n rhaid ichi ei wneud yw dal yr un cywir, a chyda'r wybodaeth a'r angerdd a gafwyd yn Abertawe, byddwch chi'n gallu gwneud yr union beth hwnnw!



## Mert Mohac

Cwnsler Cyfraith Lloegr yn Esenyel Partners Lawyers & Consultants, Istanbul.

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Wrth edrych yn ôl, mae LLM Abertawe wedi fy helpu i ddeall yn well y diwydiant morol a'r maes cyfreithiol y tu ôl iddo cyn mynd yn rhan o'r byd hwnnw. Gwnaeth y gwahanol deithiau i gwmnïau yn Llundain, a hanesion diddorol ac ymarferol y darlithwyr, helpu i greu darlun o fy maes gwaith cyn imi gael swydd, a dweud y gwir. Ac ychwanegwch at hynny'r tîm academaidd a chydymdeimladol o ddarlithwyr a oedd bob amser yn barod i gael sgwrs â ni a'n mentora o ran ein hastudiaethau yn ogystal â'n gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae hyn wedi creu'r person wrth ei waith ydw i heddiw, yn gyfreithiol ac yn broffesiynol.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Fy nghyngor i fyddai hyn. Yn lle ceisio creu llwybr a fydd yn caniatáu ichi gael swydd, ceisiwch yn hytrach greu llwybr sy'n eich galluogi i wella'ch hunaniaeth broffesiynol. Cymerwch ran mewn seminarau, ewch i weminarau a byddwch yn barod bob amser i gyfathrebu â'ch mentoriaid. Byddwch ag agwedd annibynnol tuag at gyflogaeth; peidiwch â chyfyngu'ch hun i un maes yn unig. Gwnewch eich ymchwil, ychwanegwch ati'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu a'i gyflawni drosoch chi'ch hun, ac yn y pen draw cewch chi'r swydd rydych chi'n chwilio amdani.

---



## Ioanna Peraki

Partner, G. Trantalidis & Associates, Piraeus, Athen, Gwlad Groeg

**C. Sut roedd eich LLM yn Abertawe wedi'ch helpu chi?**

Ar hyn o bryd, mae LLMau Abertawe mewn Cyfraith Forol a Masnachol ymhlith y rhaglenni LLM gorau yn y sector, ac fel un o raddedigion LLM Prifysgol Abertawe rwy'n gallu gweld heb os nac oni bai'r rheswm dros yr enw da hwn. Mae gan y rhaglen strwythur hynod o drefnus, sy'n cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol a'r gwaith o gymhwyso hyn yn ymarferol drwy seminarau wythnosol a chystadleuaethau ffug lys.

Ar ben hyn, ceir aelodau o staff o safon academaidd uchel iawn sy'n arbenigwyr rhyngwladol ym maes cyfraith llongau, ac maen nhw bob amser yn barod i siarad â'r myfyrwyr a'u cynghori ar eu modiwlau a'u gyrfa.

Rhoddodd fy LLM mewn Cyfraith Fasnachol a Morol Ryngwladol yr holl wybodaeth roedd ei hangen arna i i gael swydd fel cyfreithiwr llongau a rhoddodd gipolwg imi ar y farchnad swyddi berthnasol pan drefnwyd teithiau i amryw o gwmnïau blaenllaw, a llawer o ymweliadau perthnasol i'r brifysgol gan weithwyr cyfreithiol adnabyddus.

O ganlyniad, roedd cwblhau fy LLM ym Mhrifysgol Abertawe yn peri imi deimlo'n hyderus yn broffesiynol. Roedd yr hyder hwn yn deillio o wybodaeth, ac arweiniodd hyn at sicrhau fy swydd bresennol, ar y cyd â dealltwriaeth dda o gyfraith forol Gwlad Groeg ar lefel academaidd.

**C. Pa gyngor y gallwch chi ei roi i fyfyrwyr cyfredol wrth iddyn nhw chwilio am swyddi?**

Byddwn i'n eu cynghori i ddewis eu modiwlau yn ddoeth, gan mai'r rhain fydd y sylfaen gyntaf wrth lunio'u gwybodaeth yn eu gyrfa yn y dyfodol. Dylen nhw hefyd fynychu'r cyrsiau dewisol ar gyflogadwyedd gan eu bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer chwilio am swydd yn llwyddiannus.

Lluniwch gynllun ar gyfer y camau nesaf yn eich gyrfa a cheisiwch ganolbwyntio ar hyn. Hwyrach y bydd y cyfnod rhyfedd hwn yn anodd wrth ichi chwilio am swydd, ond byddwch yn agored i gyfleoedd, byddwch yn bositif ac yn angerddol am eich breuddwydion, byddwch yn barod i barhau i ddatblygu a rhoi sglein ar eich sgiliau, a byddwch chi'n llwyddo.

Swansea University | Prifysgol Abertawe | Institute of International Shipping and Trade Law

*Making waves in shipping and trade for 20 years*

**Ewch i'n gwefan:**
www.abertawe.ac.uk/y-gyfraith/sflmr

**Darllenwch ein blog am y newyddion a'r safbwyntiau cyfreithiol diweddaraf:**
iistl.blog

**Dilynwch ni ar Twitter a LinkedIn i gael ein newyddion diweddaraf:**
@swansea_dst | linkedin.com/company/iistl-swansea